

PWYLLGOR CRAFFU BYW'N IACH A GOFAL CYMDEITHASOL

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 13 Mehefin, 2023.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: Y Cyngorydd J.E. Charles (Cadeirydd); Y Cyngorydd N.C. Thomas (Is-Gadeirydd); Cyngorwyr I.R. Buckley, C.A. Cave, A.M. Collins, C.M. Cowpe, R. Fisher, E.J. Goodjohn, J. Lynch-Wilson, J.M. Norman a C. Stallard.

Hefyd yn bresennol: Cyngorwyr E. Goodjohn, C.P. Franks, W.A. Hennessy, G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles), R.R. Thomas a E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd).

108 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol".

109 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mai, 2023 fel cofnod cywir yn amodol ar nodi'r pwyntiau a ganlyn a godwyd gan y Cyngorydd M. Cowpe:

- (1) Cofnod rhif 24 – Cyflwyniad Llais Cymru – Pwynt bwled 5 – Tudalen 4. Disodli'r gair "disodlwyd" gyda "yn ychwanegol at" i adlewyrchu'n fwy cywir bod Proses Gwyno'r Bwrdd Iechyd Prifysgol yn dal i fod ar waith,
- (2) Cofnod rhif 25 – Adroddiad Arolygiad Gwerthuso Perfformiad – Pwynt bwled 8 – Tudalen 6. Disodli'r ail ddefnydd o'r gair "comment" ag "adweithiau" i wahaniaethu'n fwy cywir rhwng y sylwadau negyddol a'r ymatebion cadarnhaol a geir trwy'r sianel cyfryngau cymdeithasol.

110 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

111 DIWEDDARIAD STRATEGAETH DEMENTIA CAERDYDD A BRO MORGANNWG –

Rhoddodd gwesteion o Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro gyflwyniad PowerPoint i roi diweddariad ar Strategaeth Dementia Caerdydd a'r Fro 2018 – 2028. Gwnaed hynny mewn ymateb i gais blaenorol am gyflwyniad yn rhan o flaenraglen waith y Pwyllgor.

Gyda chefnogaeth sawl cydweithiwr, amlinellodd Cyfarwyddwr Gweithredol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro weledigaeth y Strategaeth i sicrhau, erbyn 2028, y byddai poblogaeth Caerdydd a Bro Morgannwg yn ymwybodol o ddementia ac y byddai'n lleihau ei risg o ddementia. Byddai pobl â dementia yn cael mynediad teg ac amserol at ddiagnosis; byddent yn derbyn gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, wedi'i ddarparu gyda charedigrwydd yn lleol, a byddai gofalwyr yn teimlo wedi'u cefnogi a'u grymuso.

Soniodd y cyflwynwyr wrth y Pwyllgor am yr wyth amcan strategol a osodwyd o fewn y Strategaeth yn ogystal â'r dogfennau strategol cenedlaethol a oedd yn llywio'r Strategaeth ac yn gweithredu ochr yn ochr â hi, cyflawniad prosiectau'r rhaglen dementia (2022-23) strwythur llywodraethu'r rhaglen, a chanlyniadau arfaethedig y rhaglen dementia, sef:

- Lleihau'r amseroedd aros am asesiad a diagnosis,
- Cynyddu nifer y busnesau a'r cymunedau sy'n gyfeillgar â dementia,
- Llai o ymweliadau â'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys,
- Llai o dderbyniadau heb eu cynllunio i'r ysbyty / gofal hirdymor
- Mwy o'r gweithlu wedi'u hyfforddi drwy'r Fframwaith Gwaith Da ar gyfer dementia.

Yn dilyn y cyflwyniad a chwestiynau dilynol a godwyd gan y Pwyllgor, rhannodd y cyflwynwyr gwadd yr wybodaeth ychwanegol a ganlyn:

- Y man cyswllt cyntaf bob tro ar gyfer unrhyw unigolyn ar ddechrau'r daith i gael cyngor a chefnogaeth yn gysylltiedig â diagnosis o ddementia oedd drwy ofal sylfaenol meddyg teulu. Roedd cynllun cyfathrebu yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd i nodi'r amrywiaeth o ddeunyddiau gwybodaeth sydd eisoes ar gael, yr unigolion mwyaf priodol i gyfeirio pobl atynt, ac ymhle y gallai unigolion gael yr wybodaeth cyn gynted ag sy'n bosibl. Roedd cymorth a gwybodaeth hefyd ar gael drwy wefan y Fro Dementia Gyfeillgar, yn ogystal â thrwy fusnesau dementia gyfeillgar ar draws Bro Morgannwg, a oedd yn ceisio addysgu unigolion a chynnig proses siop un stop wrth ddysgu am ddementia.
- Unwaith y byddai rhywun yn cael diagnosis ffurfiol o ddementia, byddai gweithiwr cyswllt cof yn cael ei bennu ar ei g/chyfer, a fyddai'n ei g/chyfeirio i dderbyn y cymorth mwyaf priodol sydd ar gael iddi hi/iddo ef ei hun a'i b/pherthnasau.
- Er mwyn osgoi dibynnu'n ormodol ar fusnesau i drosglwyddo gwybodaeth yn rhan o'r ymagwedd i adeiladu cymunedau dementia gyfeillgar, nad oedd bob amser yn briodol yn ardaloedd mwy gwledig Bro Morgannwg, gan nad oedd cynifer o fusnesau i'w defnyddio, byddai'r cynllun cyfathrebu a oedd yn cael ei

ddatblygu yn ceisio defnyddio pob lleoliad cyhoeddus i drosglwyddo gwybodaeth, fel safleoedd bws ac/neu lyfrgelloedd lleol. Yn ogystal â deunyddiau gwybodaeth ar ffurf copi caled, byddai'r cynllun cyfathrebu hefyd yn ceisio archwilio sut y gellid defnyddio argymhellion personol mewn cymunedau lleol drwy grwpiau/sefydliadau lleol i drosglwyddo gwybodaeth a chynghor.

- O ran y gwaith penodol sy'n cael ei gyflawni i addysgu a chyfeirio unigolion y mae dementia yn cyffwrdd â'u bywydau yn ardaloedd gwledig Bro Morgannwg, byddai'r Cynghorydd Cave yn cael enghreifftiau o hynny yn dilyn y cyfarfod.
- Byddai gweithwyr cyswllt cof yn helpu gofalwyr yn ogystal â'r unigolyn â diagnosis o ddementia i drafod pob agwedd ar y gofal a'r cymorth sydd ar gael iddynt. Byddai hyn yn sicrhau bod teuluoedd yn cael eu cyfeirio at y gwasanaethau cywir, heb orfod cysylltu â gwahanol lefydd i dderbyn gwahanol agweddau ar ofal, oherwydd cydnabuwyd y gallai hyn fod yn broses a chyfnod dryslyd iawn i deuluoedd.
- Pe bai unigolyn yn cael ei dderbyn i'r ysbyty heb gael diagnosis o ddementia, ond bod gofalwr/gofalwyr yr unigolyn yn codi pryderon, roedd proses wedi'i sefydlu i gyfeirio unigolion i'r Tîm Cof neu'r Gwasanaeth Pontio Iechyd Meddwl o fewn y lleoliad i gleifion mewnol, i sicrhau'r daith gofal fwyaf effeithlon a phriodol i'r unigolyn. Cydnabuwyd pe bai unigolyn heb ddiagnosis yn yr ysbyty, ei bod hi'n bosib mai dyna fyddai'r lleoliad gwaethaf i iechyd meddwl yr unigolyn.
- O ran bodloni'r dull siop un stop yn y cymunedau, byddai cydweithwyr o'r Tîm Cyswllt Cymunedol yn mynd i gyfarfodydd gofal allanol ac yn ymweld â sefydliadau y tu allan i'r ysbyty a/neu leoliadau fel meddygfeydd i ateb ymholiadau gan unigolion a gyflwynir iddynt yn y lleoliad.
- Byddai'r Tîm Hyfforddiant Dementia hefyd yn darparu pob lefel o hyfforddiant i staff gofal iechyd, staff awdurdod lleol a sefydliadau trydydd sector, yn ôl yr angen, i sicrhau bod ymholiadau unigol yn cael eu hateb a'u cyfeirio'n briodol. Y ffocws parhaus oedd 'cyrhaeddiad' y gwasanaethau a grybwyllwyd eisoes fel bod pob aelod o staff gofal yn gwybod sut i weithio ar draws timau a chyfeirio unigolion at y cydweithwyr cywir.
- Roedd sicrhau darpariaeth ddigonol o welyau ysbyty yn her barhaus ar draws y safleoedd meddygol, boed y rheiny'n welyau meddygol neu iechyd meddwl. Ar gyfer unigolyn a fyddai, yn ôl asesiad, angen gwely iechyd meddwl, byddai staff o'r Tîm Cyswllt Cymunedol yn ymweld â'r claf yn ddyddiol ac yn gweithio gyda staff ar y ward gyfredol i gefnogi'r unigolyn lle bynnag yr oedd nes y gellid symud y claf. Byddai staff hefyd yn gweithio gyda thîm cymorth React i helpu i ddychwelyd unigolion i'w cartrefi a fyddai wedyn yn lliniaru'r pwysau ar welyau.
- Mewn perthynas ag unigolion hŷn â diagnosis o ddementia, byddai'r gwasanaeth yn anelu i gadw'r unigolyn yn ei gartref ei hun gyhyd ag a oedd modd. Roedd dull y GIG yn ymwneud llai â nifer y gwelyau, ond mwy â chyfeirio'r unigolyn i'r man cywir, boed hynny gartref neu mewn lleoliad cartref gofal cyn gynted â phosib. Gwnaed sawl atgyfeiriad i welyau iechyd meddwl yn ddiweddar wedi i ofalwr dorri i lawr, felly cydnabuwyd bod angen paru'r gwasanaethau a gynigir i unigolyn â'r teulu a'r amgylchiadau'n gysylltiedig â'r claf.

- Roedd y cyflwynwyr yn falch o glywed y profiadau personol a rannwyd gan aelodau o'r Pwyllgor yn gysylltiedig â'r canlynol:
 - Prinder addysg i unigolion a oedd yn eu cael eu hunain mewn sefyllfa newydd yn gofalu,
 - Y tabŵ lle nad oedd teuluoedd yn ceisio cymorth gofalu nes i gyflwr eu hanwylyd ddirywio'n sylweddol, gan reoli gofal eu hanwylyd o fewn yr uned deuluol.
 - Gofalwyr a oedd yn ei chael hi'n anodd dewis a dethol a chadw'n gyfuch ag agweddau amrywiol ar gymorth a oedd ar gael iddynt, gan nad oedd un ffynhonnell wybodaeth neu unigolyn i gysylltu â nhw.
 - Gofalwyr yn pryderu bod eu hanwyliaid yn fwy agored i niwed ar ôl iddynt fynd i leoliad ysbyty, ac nad oedd eu hanghenion sylfaenol yn cael eu bodloni.
 - Cymryd amser hir i dderbyn diagnosis dementia yn y lle cyntaf drwy'r meddyg teulu.

Er mwyn rhoi sicrwydd, roedd llawer o waith yn cael ei wneud gyda'r tîm cyswllt i asesu seiciatreg unigolyn, a thrwy hynny i gynyddu sgiliau staff y ward fel eu bod yn gallu cynnig y gofal gorau posib i'r unigolyn. Cafodd y tîm cyswllt hefyd y dasg o hyrwyddo'r cynllun 'Darllen amdana i' a weithredir o fewn wardiau ysbytai, yn ogystal ag ailsefydlu 'Ymgyrch John' gan mai'r rheiny oedd yr anghenion sylfaenol yr oedd angen eu bodloni i'r unigolyn.
- Roedd y rhan fwyaf o'r gwelyau iechyd meddwl sydd ar gael ar hyn o bryd ym Mro Morgannwg wedi'u lleoli yn Ysbyty Athrofaol Llandochau ac wedi'u grwpio dros nifer o wardiau yn y coridor dwyreiniol. Roedd gwelyau seibiannol hefyd ar gael yn y lleoliad hwn. Roedd y ward dementia cynnar wedi'i lleoli yn Ysbyty'r Barri.

Heb unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach, mae'r Pwyllgor wedi hynny

ARGYMHELLWYD – Y DYLID nodi cynnwys y cyflwyniad diweddarau a diolch i gydweithwyr GIG Cymru am eu hamser.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys y cyflwyniad diweddarau ar Strategaeth Dementia Caerdydd a Bro Morgannwg 2018 – 2028 a'i gweledigaeth y dylai poblogaeth Caerdydd a Bro Morgannwg fod yn ymwybodol o ddementia a lleihau ei risg o ddementia erbyn 2028.

112 CYNGOR BRO MORGANNWG: CALENDR PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2023/24 (CYF) –

Cyflwynwyd y geirada gan y Cabinet ar 25 Mai 2023 gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

Roedd Atodiad A yr adroddiad yn amlinellu rhaglen dreigl o waith ar cyd â'r Aelodau drwy gydol Calendr Perfformiad Blynyddol 2023/24 i ddatblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth a chryfhau eu hymglymiad i siapio a mireinio'r cynlluniau, yr adroddiadau a'r prosesau allweddol a fyddai'n eu helpu yn eu rôl allweddol wrth asesu a oedd y Cyngor yn cyflawni ei Amcanion Llesiant, yn sicrhau gwerth am arian, ac yn gwella llesiant ei ddinasyddion.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried Cyfeirnod y Cabinet, gan gyfeirio unrhyw farn yn ôl i'r Cabinet.

Heb unrhyw sylwadau na chwestiynau wedi'u codi, mae'r Pwyllgor wedi hynny

ARGYMHELLWYD – Y DYLID nodi Cyfeirnod y Cabinet a Chalendr Perfformiad Blynyddol Cyngor Bro Morgannwg 2023/24 sydd wedi'i atodi.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys y cyfeiriad i sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau'n llawn o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i gyhoeddi Amcanion Llesiant blynyddol, cadw perfformiad yn cael ei adolygu ac ymgynghori ac adrodd ar ei berfformiad trwy hunanasesiad blynyddol yn ymwneud â'r flwyddyn ariannol flaenorol.

113 CYNLLUN ARDAL AR Y CYD (CGC) –

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Integreiddio Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gyfer Partneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig Caerdydd a'r Fro, Cath Doman, gyda chefnogaeth y Pennaeth Partneriaethau a Sicrwydd, Meredith Gardiner, yr adroddiad, a'i ddiben oedd amlinellu rhwymedigaeth statudol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) Caerdydd a'r Fro drwy'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i baratoi Cynllun Ardal ar y Cyd (ynghlwm yn Atodiad 1 yr adroddiad) mewn ymateb i ofynion a nodwyd yn yr Asesiad o Anghenion Poblogaeth y rhanbarth.

Roedd y Cynllun Ardal ar y Cyd yn disgrifio ystod a lefel y gwasanaethau y cynigiwyd eu darparu neu eu trefnu mewn ymateb i'r anghenion gofal a chymorth, gan gynnwys y cymorth yr oedd ei angen ar ofalwyr. Fel partner statudol arweiniol, roedd yn ofynnol yn statudol i Awdurdod Lleol Bro Morgannwg gydweithio â'r Bwrdd Iechyd a phartneriaid Awdurdod Lleol eraill yn y rhanbarth i baratoi, datblygu a sicrhau'r Cynllun Ardal ar y Cyd cyn ei gymeradwyo'n derfynol gan y BPRh yn ei gyfarfod a oedd wedi'i drefnu ar gyfer mis Gorffennaf 2023.

Rhannodd y cyflwynwyr gwadd ymrwymadau'r Pwyllgor ar y BPRh ar gyfer 2028, fel y nodwyd ym mharagraff 2.2 yr adroddiad cyflwyno, gan ddweud bod cynlluniau cyflawni manwl yn cael eu sefydlu i sicrhau cynnydd tuag at yr ymrwymadau a osodwyd, yn disgrifio'r gefnogaeth a fyddai'n allweddol er mwyn gallu cyrraedd y nodau a bennwyd a graddfeydd amser perthnasol, gan sicrhau ar yr un pryd bod cysylltiadau effeithiol yn cael eu creu â gweithgareddau a oedd eisoes yn cael eu darparu gan sefydliadau partner.

Ar ôl cyflwyno'r adroddiad, a chael cwestiynau dilynol gan y Pwyllgor, ychwanegodd y cyflwynwyr yr wybodaeth ganlynol:

- Roedd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar ganol creu cynllun cyflawni i gefnogi'r Cynllun Ardal ar y Cyd a fyddai'n cynnwys amcanion canlyniad clyfar i fonitro a chynllunio cynnydd, yn unol â'r arfer safonol. Roedd y wefan ranbarthol i rannu gwybodaeth yn gysylltiedig â'r Cynllun Ardal ar y Cyd wedi cael ei lansio'n ddiweddar er mwyn helpu i gyflawni'r wyth canlyniad a nodwyd. Roedd data byw yn gysylltiedig â'r Cynllun Ardal ar y Cyd yn cael eu diweddarau'n wythnosol, gan roi syniad llawer cadarnach a mwy cyflawn o anghenion y boblogaeth. Roedd y BPRh hefyd yn cyflwyno adroddiad bob chwarter i Lywodraeth Cymru, yn ogystal â chyflwyno adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor, gan fwrw golwg am yn ôl fel partneriaeth.
- Roedd y cynllun cyflawni sy'n cael ei ddrafftio ar hyn o bryd i'w gyflwyno i gyfarfod nesaf y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ym mis Gorffennaf 2023 ac ar ôl ei gymeradwyo, byddai trefniadau rheolaidd i graffu arno hyd diwedd ei oes. Byddai'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn hapus i ddod â'r cynllun cyflawni gerbron Pwyllgor Craffu yn y dyfodol.
- Ar ôl sefydlu'r Siarter Gofalwyr Ifanc, roedd gwaith ar y gweill i godi ymwybyddiaeth ynghylch y Siarter, gofalwyr di-dâl, a'u rôl, ac i sicrhau ei bod hi'n haws i bobl ifanc a'r gymuned o'u hamgylch gael gafael ar yr wybodaeth sydd ar gael i ofalwyr ifanc.
- O ran yr asesiadau gofalwyr a nodir yn y Siarter Gofalwyr Di-dâl, roedd angen mwy o waith i godi ymwybyddiaeth ynghylch y gwasanaeth porth gofalwyr er mwyn i unigolion allu cael cymorth. Roedd y gwasanaeth wedi'i ariannu, ond roedd angen iddo gael proffil uwch ymhlith sefydliadau trydydd sector.

I gloi, ac yn unol â'r pwynt a godwyd gan yr Is-gadeirydd, dywedodd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, o ran perthynas waith Heddlu De Cymru a'u rhan yn hyn fel y rhai a fyddai'n cael eu galw i ddigwyddiadau iechyd meddwl, byddai cynnydd hyn yn cael ei fonitro drwy lwybrau ar wahân i'r Cynllun Ardal ar y Cyd, ac nid oedd felly'n briodol ymgorffori hyn o fewn y Cynllun Ardal ar y Cyd.

Nid oedd rhyw lawer o bosibilrwydd diwygio cynnwys y Cynllun Ardal ar y Cyd yn dilyn sylwadau'r Pwyllgor, yn enwedig yng goleuni'r ffaith bod gwaith craffu eisoes wedi digwydd cyn hyn y tu allan i'r Cyngor, ond cynigiwyd, i adlewyrchu'r materion a godwyd gan yr Aelodau, y dylid ailbwsleisio drwy gydol y Cynllun fod y cyfeiriadau at Ofalwyr Di-dâl hefyd yn cyfeirio at Ofalwyr Ifanc a'r Siarter gysylltiedig, i adlewyrchu cais yr Is-gadeirydd a sylwadau dilynol gan y Pwyllgor.

Heb unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach, mae'r Pwyllgor wedi hynny

ARGYMHELLWYD – Y DYLID nodi ymrwymadau'r Cydgynllun Ardal fel y'u hamlinellir yn yr adroddiad eglurhaol a Chynllun Ardal ar y Cyd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro 2023-28 sydd ynghlwm.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried yr adroddiad eglurhaol a'r cynllun atodedig i fodloni rhwymedigaeth statudol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a Bro Morgannwg drwy Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i baratoi Cynllun Ardal ar y Cyd a chydweithio gyda'r Cyngor fel partner statudol arweiniol ar ofynion a nodwyd yn Aseiad Anghenion Poblogaeth y rhanbarth.

114 ADRODDIAD BLYNYDDOL 2023 Y GWASANAETH GWYBODAETH I DEULUOEDD (CGC) –

Cyflwynodd y Rheolwr Tîm Gwybodaeth Gofal Cymdeithasol yr adroddiad, a'i ddiben oedd rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Pwyllgor am berfformiad Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (GGiD) y Fro yn ystod 2022-2023.

Dywedodd y Swyddog fod y GGiD yn chwarae rhan hanfodol o ran cyfrannu at y gofyniad Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Roedd y GGiD yn galluogi'r Cyngor i gyflawni ei gyfrifoldebau o dan Ddeddf Gofal Plant 2006, Adran 27, ynghylch darparu gwybodaeth ragnodedig i rieni a darpar rieni, am ofal plant a gwasanaethau neu gyfleusterau eraill.

Rhoddodd y Rheolwr Tîm wybod i'r Pwyllgor am gyflawniadau allweddol, heriau ac ymholiadau i'r Gwasanaeth dros y deuddeg mis blaenorol, yn ogystal â chamau gweithredu allweddol ar gyfer 2023/24 ar gyfer y gwasanaeth fel y nodir yn Adroddiad Blynyddol Sway y ceir hyperddolen iddo yng nghrynodeb gweithredol yr adroddiad cyflwyno.

Heb unrhyw sylwadau na chwestiynau wedi'u codi, mae'r Pwyllgor wedi hynny

ARGYMHELLWYD –

(1) Y DYLID nodi Adroddiad Blynyddol 2023 Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd y Fro a'r gwaith a wnaed i gefnogi rhieni/gofalwyr a darparwyr ym Mro Morgannwg.

(2) BOD y Pwyllgor yn derbyn diweddariad blynyddol pellach ar y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Gan roi sylw i'r adroddiad eglurhaol ac Adroddiad Blynyddol 2023 Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd y Fro sydd wedi'i atodi, er mwyn sicrhau bod y maes pwysig o weithgarwch gwasanaethau cymdeithasol yn cael ei oruchwylio'n effeithiol.

(2) Sicrhau bod y Pwyllgor Craffu yn parhau i gael ei ddiweddarau o ran y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd.

115 ADOLYGIAD BLYNYDDOL O WASANAETHAU A GOMISIYNIR I OEDOLION AG ANGEN GOFAL A CHYMORTH (CGC) –

Cyflwynodd y Pennaeth Rheoli Adnoddau a Diogelu, gyda chefnogaeth y Rheolwr Gweithredol ar gyfer Comisiynu a Chyllid, yr adroddiad, a'i ddiben oedd amlinellu'r gwaith a gyflawnwyd ynghylch gwasanaethau wedi'u comisiynu i oedolion ag

anghenion gofal a chymorth, a'r camau â blaenoriaeth ar gyfer 2022/23, yn ogystal â blaenoriaethau comisiynu'r Gyfarwyddiaeth ehangach yn 2023/24.

Yn ogystal â'r materion allweddol i'w hystyried, a nodwyd ym mharagraffau 2.1 - 2.11 yr adroddiad cyflwyno, dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau hefyd wrth y Pwyllgor:

- Bod recriwtio yn parhau i fod yn broblem ddifrifol i'r sector, yn enwedig ym maes gofal cartref, gyda darparwyr yn adrodd mai niferoedd isel o staff oedd yn cael eu recriwtio a'u cadw. Parhawyd i gynnal y rhaglen hyfforddi Llwybr Carlam i Ofal, ac roedd yn galluogi darpar staff gofal i dderbyn yr holl hyfforddiant angenrheidiol drwy Adran Hyfforddiant y Cyngor. Ar ddiwedd yr hyfforddiant, byddai'r rhai a gymerodd ran yn cael manylion cyflogaeth gyda darparwyr mewnol ac allanol i'w hannog i fanteisio ar gyfleoedd am swydd ym Mro Morgannwg. Roedd y Cyngor wedi gweithredu Cyflog Byw Gwirioneddol, a oedd wedi cael effaith gadarnhaol ar y rhai a oedd ar y cyflogau isaf, ac wedi cyflwyno dull o wahaniaethu rhwng cyflogau staff domestig a staff gofal. Heb y codiadau hyn mewn cyflogau, byddai'r trefniadau staffio wedi bod yn eithriadol o anodd i rai darparwyr gofal. Ar ddiwedd mis Mawrth 2023, adroddodd cartrefi preswyl lefelau llenwi cyfartalog o 92%, a 95% mewn cartrefi nyrsio. Ar adeg y cyfarfod, dim ond un unigolyn oedd yn disgwyl am ddyddiad dechrau lleoliad mewn cartref gofal.
- Ar ddydd Gwener, 9 Mehefin 2023, aseswyd bod 25 o ddinasyddion angen gofal a chymorth gartref, ac roeddent yn disgwyl i asiantaeth gofal cartref dderbyn eu pecyn gofal. Er bod y Cyngor wedi lleihau'r niferoedd a oedd yn disgwyl am becynnau, roedd pwysau sylweddol yn parhau yn hynny o beth. Roedd Gorllewin y Fro yn ardal arbennig o heriol i gomisiynu gwasanaethau gofal cartref. Roedd gwaith wedi'i wneud gyda darparwyr gofal cartref i'w cefnogi yn yr ardal hon, ac roedd Model Clwstwr Carlam yn cael ei ddatblygu ar gyfer yr ardal.
- Parhaodd perthnasau cadarnhaol â darparwyr gofal cymdeithasol, gyda fforymau misol yn cael eu cynnal. Roedd darparwyr wedi cydnabod y perthnasoedd hyn, gan gyflwyno gwobr 'Arwyr Covid - Yr Awdurdod Lleol Gorau am Gefnogi Cartrefi Gofal' i'r Cyngor yng Ngwobrau Gofal Cymru ym mis Hydref 2022 Hefyd, i gefnogi'r broses o feithrin perthnasoedd gwaith, roedd Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol wedi'i sefydlu, wedi'i gadeirio gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Bro Morgannwg, i sicrhau ymagwedd ranbarthol wedi'i halinio â phartneriaid.
- Roedd Cyngor Bro Morgannwg wedi cyflwyno cynnydd sylweddol i'r cyllid fel bo modd cynyddu ffioedd ar gyfer cyfraddau cyflog a oedd yn cael eu dyfarnu i ddarparwyr ar gyfer 2023/24. Y gyllideb ar gyfer 2023/24 oedd £50.1m, sef cynnydd o £7.6m o gyllideb 2022/23.

Ar ôl cyflwyno'r adroddiad, mynegodd yr Is-gadeirydd longyfarchiadau ar ran y Pwyllgor i'r staff am dderbyn gwobr 'Arwyr Covid - Yr Awdurdod Lleol Gorau am Gefnogi Cartrefi Gofal', gan gydnabod bod pob Awdurdod Lleol yn dal i brofi anawsterau wrth recriwtio, a bod hynny felly wedi'i nodi'n flaenoriaeth gan bawb, ac yn cyfiawnhau'r cynnydd y cyfeiriwyd ato mewn cyfraddau cyflog.

Heb unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach, mae'r Pwyllgor wedi hynny

ARGYMHELLWYD –

- (1) NODI'r heriau parhaus a'r galw am wasanaethau gofal cymdeithasol a gomisiynir.
- (2) BOD y Pwyllgor yn derbyn Adolygiad Blynyddol pellach o Wasanaethau a Gomisiynir ar gyfer Oedolion ag Angen Gofal a Chymorth.

Rhesymau dros yr argymhellion

- (1) Gan roi sylw i gynnwys yr adroddiad, rhoi cyfle i'r Aelodau oruchwylio'r swyddogaeth statudol allweddol.
- (2) Sicrhau bod y Pwyllgor Craffu yn parhau i dderbyn diweddariad blynyddol er ystyriaeth a gwybodaeth.